Ffioedd cyfreithiol blynyddol y Tri Awdurdod Parc Cenedlaethol
21 Awst 2013

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Awst 2013. Rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth, sef:

Manylion gwariant ariannol blynyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ffioedd cyfreithiol ers mis Ionawr 2005. Hoffwn gael dadansoddiad o'r gost fesul Awdurdod fesul blwyddyn.

Nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) wybodaeth sy'n ateb eich cais. Cyfeiriais eich cais hefyd at archwilydd penodedig y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac nid yw o'r farn bod ganddo'r wybodaeth hon. Sut bynnag, mae'r archwilydd penodedig yn ddeiliad swydd ar wahân, ac nid yw'n awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, felly, nid oes unrhyw hawl i weld gwybodaeth a ddelir ganddo.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr wyf wedi ymdrîn â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips